Joint Council for Qualifications

# Datganiad polisi ynghylch diogelu plant ac oedolion mewn perygl

**Diwygiwyd – Gwanwyn 2023**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | **2** |
| Rolau a Chyfrifoldebau | **3** |
| Diffiniadau | XX |
| Egwyddorion penodol ynghylch diogelu plant ac oedolion mewn perygl o niwed | XX |

# Rhagarweiniad

## Diben

Bwriad y polisi hwn yw nodi ymrwymiad y CGC a'i aelodau i egwyddorion diogelu.

Nid yw pawb yn gallu siarad drostyn nhw eu hunain ac felly mae angen cymryd camau i amddiffyn y bobl hynny sy'n agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae sicrhau eglurder ynghylch y ffordd mae corff yn ymdrin â materion diogelu ac yn rhoi'r gallu i'r sawl sy'n gweithio iddo neu gydag ef yn ffordd o wneud hynny.

Mae cyrff dyfarnu'r CGC wedi cytuno i fabwysiadu naw safon o ddiogelu ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Seiliwyd y safonau hyn ar ganllawiau'r Llywodraeth.

Bydd angen i gyrff dyfarnu lunio prosesau sy'n addas i'w hamgylchiadau a'u gweithrediadau penodol.

## Mae hon yn ddogfen ar gyfer:

Mabwysiadodd cyrff dyfarnu'r CGC yr egwyddorion hyn. Dylai staff yn y cyrff dyfarnu eu darllen a'u rhoi ar waith. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sawl sy'n bennaf cyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed.

Gall fod yn ddefnyddiol hefyd i ganolfannau ddarllen y ddogfen hon er mwyn dod i ddeall yr hyn y mae'r cyrff dyfarnu wedi ymrwymo iddo.

Ni fwriedir y ddogfen hon i sicrhau bod y cyrff dyfarnu'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

## Pwy yw'r cyrff dyfarnu?

Wyth corff dyfarnu sy'n perthyn i'r CGC

- AQA
- City & Guilds
- CCEA
- NCFE
- OCR
- Pearson
- Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA)
- CBAC

Drwy'r CGC, maen nhw'n cydweithio i ddatblygu safonau, rheoliadau a chanllawiau sy'n gyffredin ar gyfer arholiadau ac asesiadau er budd ymgeiswyr a chanolfannau ledled y DU.

# Rolau a chyfrifoldebau

## Beth mae cyrff dyfarnu yn ei wneud?

**Prif nod cyrff dyfarnu yw darparu cymwysterau a chefnogaeth i ddiwallu anghenion unigolion a chymdeithas.** Yn rhan o'r gwaith o gyflenwi'r cynhyrchion a'r gwasanaethau hyn, mae angen i'r cyrff dyfarnu hefyd weithredu i sicrhau lles unrhyw ymgeiswyr sy'n sefyll eu hasesiadau.

Mae nifer o weithgareddau, cynhyrchion a gwasanaethau sy'n allweddol i gyflwyniad cyrsiau yn sail i bob tystysgrif. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r lwyddiant yr ymgeiswyr yn ennill eu tystysgrifau. Staff parhaol sydd wedi'u cyflogi gan y cyrff dyfarnu sy'n cyflawni rhai o'r gweithgareddau hyn; bydd pobl dan gontractau gwahanol yn cyflawni gweithgareddau eraill. At ddibenion y polisi hwn, mae'r enw 'cynrychiolydd' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r sawl sydd dan gontract i gorff dyfarnu yn hytrach na'r sawl sydd wedi'i gyflogi'n barhaol gan y corff dyfarnu hwnnw.

**Mae pedwar maes allweddol y mae'n bosibl codi materion diogelu ynddyn nhw o ran gwaith y cyrff dyfarnu:**

- sut mae staff parhaol neu gynrychiolwyr cyrff dyfarnu yn ymddwyn tuag at ymgeiswyr, plant eraill ac oedolion agored i niwed y maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw, naill ai yn bersonol neu ar-lein
- priodoldeb deunyddiau asesu;
- ymgeisydd yn datgelu gwybodaeth ynghylch ei les personol, neu les un o'i gyfoedion, i'r staff parhaol neu gynrychiolydd o'r corff dyfarnu, p'un ai'n uniongyrchol neu mewn ymateb ysgrifenedig neu ar y cyfryngau cymdeithasol;
- mynegi pryderon ynghylch llywodraethiant neu arferion diogelu mewn canolfan. Gallai hyn ddeillio o arolygiad canolfan, wrth godi mater diogelu â chanolfan neu yn sgil honiad wedi'i wneud gan staff canolfan, yr ymgeiswyr neu rieni.

Ymrwymodd y cyrff dyfarnu i sicrhau bod pob aelod o'u staff parhaol a'u cynrychiolwyr yn ymwybodol o faterion diogelu yn ymwneud â phlant ac oedolion mewn perygl o niwed mewn ffordd sy'n briodol i'w rôl. Rhaid bod mecanweithiau effeithiol ar waith gan y corff dyfarnu i gofnodi a monitro materion diogelu a sicrhau bod gweithredu priodol yn digwydd. Bydd y mecanweithiau yn rhagamodi:

**Bod achosion sydd ddim yn ymwneud ag ymddygiad aelod o staff parhaol neu gynrychiolydd** yn cynnwys adrodd yn ôl ffurfiol i'r ganolfan a/neu'r awdurdod amddiffyn perthnasol. Dylai'r corff dyfarnu sicrhau ei fod yn cydnabod y materion ac yn gofyn am gadarnhad o hyn gan y corff y cyfeiriwyd yr achos ato.

**Bod achosion sy'n cynnwys ymddygiad staff parhaol corff dyfarnu** yn cael eu hymchwilio'n ffurfiol ac yr ymdrinnir â nhw yn unol â'r gweithdrefnau disgyblu fydd wedi'u dogfennu gan y corff dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys trafod a'r awdurdodau amddiffyn perthnasol os yw'n briodol gwneud hynny.

**Bod achosion sy'n cynnwys ymddygiad cynrychiolwyr cyrff dyfarnu** yn cael eu hymchwilio'n ffurfiol, gan gynnwys trafod â'r awdurdodau amddiffyn statudol perthnasol os yw'n briodol gwneud hynny. Ymdrinnir â'r rhain wedyn yn unol â thelerau ac amodau eu contractau.

# Rolau a chyfrifoldebau

## Beth mae canolfannau yn ei wneud?

**Y ganolfan yw'r man lle bydd yr ymgeisydd yn astudio, yn derbyn hyfforddiant ac yn cael ei asesu.**

Mae cyrff dyfarnu yn ymwybodol iawn o faterion diogelu ac wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed. Ond, yn gyffredinol, nid yw'r cyrff dyfarnu'n dod i gysylltiad uniongyrchol ag ymgeiswyr. Y canolfannau sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol ag ymgeiswyr. Y canolfannau felly sy'n bennaf cyfrifol am les eu hymgeiswyr, o ran symud ymlaen a datrys unrhyw faterion a chodi ymwybyddiaeth drwyddi draw.

I sicrhau bod yr holl fesurau i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed ac yn sefyll cymwysterau mor effeithiol â phosibl, mae'n hanfodol bod cyrff dyfarnu'n gweithio mewn partneriaeth â chanolfannau. O wneud hyn, bydd y ddwy ochr yn gwbl glir beth yw rolau a chyfrifoldebau y naill a'r llall.

Dylai Arweinydd Diogelu Dynodedig fod wedi'i enwi ym mhob canolfan. Dylid cyfeirio unrhyw bryderon diogelu at yr unigolion hyn neu at eu dirprwyon fel bod modd ymateb yn gyflym ac yn effeithiol.

**Yn Lloegr,** caiff rolau a chyfrifoldebau canolfannau eu diffinio yn y dogfennau:
*Keeping children safe in education – Statutory guidance for schools and colleges* (Adran Addysg, Medi 2022) **a** *Keeping children safe in education for school and college staff* (rhan 1) **a** *Working together to Safeguard Children*:

**Yng Nghymru**, caiff rolau a chyfrifoldebau canolfannau yng Nghymru eu diffinio yn y ddogfen *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*
https://www.llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

**Yng Ngogledd Iwerddon**, caiff rolau a chyfrifoldebau canolfannau eu diffinio yn nogfennau Publications on General Child Protection Issues yr Adran Addysg:
https://www.education-ni.gov.uk/articles/publications-and-guidance-child-protection-issues-schools

# Diffiniadau

Mae'r CGC yn defnyddio diffiniadau o'r term 'diogelu' o ganllawiau statudol.

Yn ôl y diffiniad yn y ddogfen berthnasol *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* (gweler uchod), mae diogelu yn gwneud y canlynol:

- amddiffyn plant rhag y risg o gael eu cam-drin
- atal unrhyw beth sy'n amharu ar iechyd neu ddatblygiad plant
- sicrhau bod plant yn tyfu i fyny mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol
- gweithredu er mwyn galluogi pob plentyn i gyflawni'r deilliannau gorau.

**Mae plant yn cynnwys unrhyw un o dan 18 oed.**

Defnyddir yr ymadrodd oedolyn mewn perygl o niwed yn y polisi hwn i olygu oedolyn sydd mewn perygl o niwed corfforol neu feddyliol oherwydd nam corfforol neu feddyliol neu'r amgylchiadau penodol sy'n achosi hynny.

## Egwyddorion penodol diogelu ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl o niwed

Archwiliodd y cyrff dyfarnu eu hamgylcheddau gweithio (gan gynnwys y sawl maen nhw'n gweithio gyda nhw a sut, pa bryd, ble ac o dan ba amgylchiadau mae aelodau parhaol o staff neu gynrychiolwyr yn gweithio ac yn rhyngweithio ag ymgeiswyr), a hefyd y cynhyrchion a'r gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig.

Mae naw egwyddor yn dilyn. Dyma'r camau hanfodol i'w defnyddio wrth ddatblygu polisi diogelu ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl o niwed. Trefnwyd yr egwyddorion hyn yn y ddogfen hon yn y drefn y dylid eu trafod.

Yn gyffredinol, mae ansawdd unrhyw bolisi diogelu yn ddibynnol ar y canlynol:

- ei fod wedi'i weithredu'n dda;
- ei fod wedi'i redeg yn dda; a'i fod
- wedi'i reoli'n dda.

**Egwyddor 1 Polisi diogelu**

Bydd gan gorff dyfarnu bolisi diogelu ar waith.

**Egwyddor 2 Gweithdrefnau a systemau**

Bydd gan gorff dyfarnu ddiffiniadau clir o ran gweithdrefnau a mecanweithiau ymateb sy'n sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau diogelu'n cael eu bodloni. Bydd hyn yn cynnwys Swyddog Diogelu dynodedig. Ar yr un pryd, cyn belled ag y bo'n bosibl gwneud hyn gan ystyried y cyfrifoldebau diogelu hynny, bydd corff dyfarnu yn sicrhau ei fod yn parchu unrhyw rwymedigaethau cyfrinachedd (tawelu meddwl pawb sy'n ymwneud â'r mater y bydd yn derbyn ymdriniaeth sensitif a phriodol).

**Egwyddor 3 Atal**

Bydd corff dyfarnu yn mabwysiadu mesurau i leihau'r risg o gam-drin i'r eithaf gan unrhyw un mae'n ei gyflogi i ymgymryd ag unrhyw weithgarwch o ran ei gymwysterau.

**Egwyddor 4 Codau ymddygiad**

Bydd *Codau Ymddygiad* ar waith gan gorff dyfarnu sy'n nodi'r hyn sy'n dderbyniol o ran ymddygiad ac ymarfer da gan ei staff a chynrychiolwyr.

**Egwyddor 5 Gweithredu**

Bydd corff dyfarnu yn rhoi canllawiau clir i staff parhaol a chynrychiolwyr o ran sut bydd y polisi diogelu yn cael ei addasu a'i gymhwyso.

**Egwyddor 6** **Cydraddoldeb a chynhwysiant**

Yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb, ac wrth arfer ei swyddogaeth o ddatblygu a dyfarnu cymwysterau, rhaid i gorff dyfarnu dalu sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael â gwahaniaethu. Dylai sicrhau hefyd ei fod yn arfer ei weithdrefnau'n gyfartal yn achos pob plentyn ac oedolyn sydd mewn perygl o niwed.

**Egwyddor 7** **Cyfathrebu**

Bydd polisi diogelu corff dyfarnu ar gael i'r cyhoedd. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd, gan ystyried sylwadau oddi wrth y rhanddeiliaid priodol.

**Egwyddor 8** **Addysg a hyfforddiant**

Bydd corff dyfarnu yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu priodol ar ffurf gychwynnol ac i adnewyddu gwybodaeth ar gyfer ei staff a chynrychiolwyr.

**Egwyddor 9** **Monitro**

Bydd corff dyfarnu yn monitro sut mae ei bolisi diogelu yn gweithredu a pha mor effeithiol ydyw.

# Crynodeb

Drwy ddilyn y naw egwyddor hyn, mae'r CGC a'i aelodau yn ceisio sicrhau y gallan nhw feithrin a hybu arferion a fydd yn diogelu'r bobl hynny sydd fwyaf mewn perygl o niwed yn y gymdeithas rhag cael eu cam-drin a'u hecsbloetio. Maen nhw hefyd yn ceisio bodloni gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol.

Cyfrifoldeb aelodau dynodedig o staff yn y cyrff dyfarnu yw'r egwyddorion diogelu hyn. Mae'r CGC yn rhagweld y bydd yr egwyddorion hyn yn destun adolygiad blynyddol a/neu pryd bynnag y bydd newid arwyddocaol yn y corff dyfarnu neu mewn deddfwriaeth, polisi neu ganllawiau amddiffyn perthnasol.